

Diwylliant cenedlaethol a'r Llyfrgell Genedlaethol¹

Andrew Green

1 Cyflwyniad

Sefydliad diwylliannol yw Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Ar un olwg, ymddengys y gosodiad hwn yn un cyffredin, annadleuol, ac yn wir yn hunaneglurhaol. Tan yn ddiweddar, wedi'r cwbl, bu'r Llyfrgell yn perthyn i'r Adran Ddiwylliant yn y Cynulliad.

Ond hoffwn i heddiw edrych eto ar y frawddeg honno, a cheisio tri pheth: yn gyntaf, siarad am y gair 'diwylliant' a dechrau ei ddadbacio, yn ail, ystyried pa ffordd y gallwn ni sôn am y Llyfrgell fel endid diwylliannol, ac yn olaf, awgrymu sut y dylai hi ddatblygu yn y dyfodol i adlewyrchu diwylliant, neu yn hytrach, ddiwylliannau cyfoes.

(Fydda i ddim, gyda llaw, yn trafod y Llyfrgell fel ffynhonnell o wybodaeth am y byd yn gyffredinol. Testun dilys a phwysig yw hwn, wrth reswm, ond dwi eisoes wedi ei drafod mewn darlith arall eleni.)

2 Gwreiddiau diwylliannol y Llyfrgell

Un o'r manteision o ddathlu eich pen blwydd yn gant oed yw'r fraint o edrych yn ôl i'ch plentyndod cynnar. Mae digon o gyfle wedi bod yn ystod y chwe mis diwethaf i ymchwilio i wreiddiau diwylliannol y Llyfrgell.

Diddorol yw nodi ysgogiad y dynion – dynion i gyd oedden nhw, gyda llaw – oedd yn gyfrifol, ym mlynnyddedd olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg a blynyddoedd cynnar yr ugeinfed ganrif, am hybu'r syniad o greu llyfrgell ac amgueddfa genedlaethol. Mae'n wir mai addysg oedd wrth wraidd y symudiad hwn: ar un olwg roedd sefydlu'r ddau yn ddatblygiad naturiol o'r mudiad nodweddiadol Fictoraidd hwnnw oedd yn gyfrifol am Ddeddf Addysg Ganolraddol Cymru (1889), a sefydlu Prifysgol Cymru (1893) a Bwrdd Canolog Cymru (1896). Ond prin y gellir dychmygu, er enghraifft, ymgyrch John Herbert Lewis yn Nhŷ'r Cyffredin i sefydlu llyfrgell ac amgueddfa i Gymru heb ddwyn i gof ei apêl gyson at arwahanrwydd Cymru ar sail ei nodweddion diwylliannol unigryw. Roedd hi'n amhosibl, yn ôl dadl Lewis, i sefydliadau Prydeinig fel yr Amgueddfa Brydeinig gwrdd ag anghenion pobl Cymru, gan nad oedd ganddynt yr adnoddau, y sgiliau na'r ddealltwriaeth i werthfawrogi a thrysori diwylliant Cymru.

Doedd hi ddim yn anghyffredin i lyfrgelloedd cenedlaethol mewn gwledydd eraill yn Ewrop ddod i fodolaeth yn sgil mudiad cenedlaethol. Yr hyn oedd yn anarferol yn achos

¹ Darlith i Gyfeillion Llyfrgell Genedlaethol Cymru a draddodwyd yn y Pagoda, Eisteddfod Genedlaethol Sir Fflint a'r Cyffiniau, Yr Wyddgrug, 9 Awst 2007.

Cymru oedd bod yr awydd am annibyniaeth wleidyddol yn absennol – os ydych chi'n eithrio'r mudiad byrhoedlog hwnnw, Cymru Fydd – o'r ysbryd newydd oedd ar led yng Nghymru ar y pryd. Dyna efallai pam mai trwy gyfrwng *diwylliant* yn bennaf y mynegwyd yr ymdeimlad newydd o Gymreictod – a pham fod gan y Llyfrgell Genedlaethol le arbennig yng nghalonau'r bobl byth ers y cyfnod hwnnw.

Doedd dim prinder Gymreictod diwylliannol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, fel y tystia'r llyfr cynyddol o gyhoeddiadau printiedig yn yr iaith Gymraeg. Ond tua diwedd y ganrif tyfodd y dymuniad i ymgorffori cynnyrch y diwylliant hwnnw mewn sefydliadau ac adeiladau – oedd yn eu tro yn arwyddion amlwg i'r byd o bwysigrwydd diwylliant mewn gwlad oedd yn fach ond yn wahanol.

Roedd yr iaith Gymraeg yn amlwg ym meddwl sylfaenwyr y Llyfrgell. Does dim amheuaeth nad oedd yr iaith a'r diwylliant Gymraeg yn chwarae rhan bwysig yn y ddadl am leoliad y Llyfrgell a'r gystadleuaeth rhwng Aberystwyth a Chaerdydd. Roedd Syr John Williams yn benderfynol nad oedd y Llyfrgell yn mynd i fynd i Gaerdydd. Ystyriai drigolion de Cymru yn frithgwn ('mongrels') nad oeddynt yn Gymry go iawn. Iddo fe roedd y Gymru ddiwydiannol newydd, Cymru America, chwedl Alfred Zimmern, yn hollol wrthun, ac yn annheilwng i dderbyn ei gasgliadau personol digymar o drysorau hanesyddol.

Does dim syndod felly mai yn uniaith Gymraeg y mae'r geiriau a ymddangosodd ymhen amser ar dalwyneb yr adeilad newydd: 'Llyfrgell Genedlaethol Cymru'.

Felly, o'r cychwyn cyntaf mae'n amlwg bod y Llyfrgell yn ysgwyddo llwyth diwylliannol trwm.

3 Beth yw diwylliant cenedlaethol?

Hyd yma rwyf wedi defnyddio'r geiriau 'diwylliant' a 'diwylliannol' yn llawer rhy llac a diofal, fel pe bai pawb ohonon ni'n gytûn ac yn eglur am eu hystyr. Priodol yw hi nawr felly imi geisio archwilio arwyddocâd y gair 'diwylliant', ac ystyr yr ymadrodd 'diwylliant cenedlaethol'. Mewn darlith fer mae'n amhosibl trin y pwnc hwn ond mewn ffordd arwynebol a gorsyml. (Man cychwyn da i'r rhai ohonoch sydd eisiau dilyn y trywydd hwn yw llyfr gan Terry Eagleton, *The idea of culture*, 2000.)

Yn 1976 cyhoeddodd Raymond Williams, y Cymro o Bandy, Sir Fynwy, ei gyfrol ddylanwadol *Keywords*, geiriadur o eiriau allweddol yn ein cymdeithas gyfoes. Dyma'r frawddeg gyntaf o dan y pennawd 'Culture': 'Culture is one of the two or three most complex words in the English language'. Mae'r un peth yn wir am y gair Gymraeg 'diwylliant', debyg iawn.

Tarddiad y gair 'diwylliant', a'r gair Saesneg 'culture' yw byd natur – yn ddigon eironig, o ystyried y gwrthgyferbyniad arferol rhwng y geiriau 'diwylliant' a 'natur'. Mae'n ymwneud â magu a hyrwyddo twf naturiol, er enghraifft mewn cnydau. Yn Ffrainc yn ystod y ddeunawfed ganrif cafodd y gair 'culture' ei gysylltu â'r syniad o 'fod yn

ddiwylliedig' neu'n goeth yn eich chwaeth neu yn eich ymddygiad. (Un o'r diffiniadau yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru o'r gair 'diwylliant' yw 'coethder chwaeth'.) Ond yn ddiweddarach yn yr Almaen yn y ganrif nesaf esblygodd y gair 'Kultur' i olygu rhywbeth arall, mwy cyffredinol: clwstwr o nodweddion gwahanol sy'n perthyn i gymdeithas neu i gymuned benodol.

Dyma'r ystyr ddaeth yn gyfarwydd i anthropolegwyr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Iddyn nhw mae 'diwylliant' yn golygu rhywbeth tebyg i'r 'holl ffordd o fyw' mewn cymuned arbennig: cyfanswm yr arferion, y traddodiadau, yr ieithoedd, y gwrthrychau a'r ymddygiadau sy'n nodweddiadol o gymdeithas ac sy'n cael eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r nesaf. Gall y math hwn o 'ddiwylliant' gwmpasu ystod eang iawn o weithgareddau: mynd i gêm bêl-droed, gwyllo *Big brother*, ysgrifennu englynion, hyd yn oed oryfed ar nos Wener yn Wind Street, Abertawe.

Dyma'r math o ddiwylliant sy'n gwneud i bobl deimlo'n gartrefol yn eu cymunedau. Weithiau enwir hwn yn ddiwylliant 'identiti'. Enghreifftiau hanesyddol amlwg yng Nghymru yw'r diwylliant gwerinol gwledig, fel y'i hadlewyrchir yn *Hen dŷ fferm* D. J. Williams, a chymdeithas unigryw'r chwarelwyr a ddisgrifir yn llyfr R. Merfyn Jones, *The North Wales quarrymen*. Doedd hi ddim yn gyd-ddigwyddiad fod y cysyniad anthropolegol hwn yn dod yn boblogaidd ar adeg pan oedd cenedlaetholdeb ar gynnydd trwy Ewrop. Gwelwyd diwylliant nid yn unig fel glud oedd yn glynu aelodau o gymuned wrth ei gilydd, ond hefyd fel arf neu amddiffynfa yn erbyn gormeswyr trefedigaethol, fel arwydd o fod yn wahanol. Yn fwy diweddar, mewn byd sy'n gynyddol gydryw ac unffurf yn sgil globaleiddio, gwelir gwerth arbennig mewn diwylliannau ac ieithoedd lleiafrifol. Felly mae i ddiwylliant fel 'yr holl ffordd o fyw' ddwy agwedd: mae'n derm disgrifiadol, ond gall fod yn derm normadol hefyd: mae'n bosibl bod o blaid diwylliant am nifer o resymau. Er enghraifft, ar sail yr hyn sy'n cyfateb i fioamrywiaeth: y gred y dylwn ni wneud ein gorau i ddiogelu cynifer ag sy'n bosibl o'r diwylliannau gwahanol yn y byd rhag ofn eu bod yn mynd i ebargofiant. Cefnogwyd y ddadl hon gan T. S. Eliot yn ei lyfr *Notes towards the definition of culture* (1948), sydd, gyda llaw, yn cynnwys dadl o blaid yr iaith Gymraeg.

Rhaid cyfaddef bod i'r math yma o ddiwylliant nifer o broblemau. Dyw hi ddim yn glir bod diwylliannau yn bethau da ynddyn nhw eu hunain. Gall eu heffeithiau fod yn ddinistriol: mae rhywun yn meddwl am ddiwylliant y 'Volk' yn yr Almaen yn nhridegau a phedwardegau'r ganrif ddiwethaf. Yn ail, mae'n anodd diffinio beth yw cwmpas diwylliant: ydy sesiwn goryfed yn Wind Street yn rhan o ddiwylliant? Yn ôl Raymond Williams, mae angen cyplysu realiti unrhyw ddiwylliant gyda theimladau'r bobl amdano fe, a'u hawydd i'w greu a'i ail-greu (dyna yw tarddiad ei ymadrodd enwog, 'strwythur ymdeimlad').

Ond dywedwn i ei bod hi'n werth cadw'r math hwn o ddiwylliant wrth law, fel syniad sy'n hael ei gwmpas a lluosog wrth natur: does dim angen dewis rhwng diwylliannau gwahanol, ac mae'n gwbl bosibl i rywun berthyn i sawl un ohonynt ar yr un pryd.

I lawer o bobl, fodd bynnag, mae'r gair 'diwylliant' yn awgrymu rhywbeth gwahanol – rhywbeth sy'n debycach i'r ystyr Ffrengig: gweithgareddau celfyddydol sy'n cael eu gwneud gan grŵp arbennig o bobl greadigol (artistiaid a chrefftwyr) ac sy'n cael eu derbyn a'u gwerthfawrogi gan aelodau'r gymdeithas, neu gan rai ohonyn nhw, fel rhywbeth sy'n cyfoethogi eu bywyd a chwrdd â'u hanghenion ysbrydol.

Ym Mhrydain yr awdur oedd yn gyfrifol am hyrwyddo'r manteision ysbrydol, gwâr o'r math yma o ddiwylliant oedd Matthew Arnold, yn arbennig yn ei lyfr *Culture and anarchy* (1869). Diddorol sylwi bod Arnold yn ysgrifennu ar adeg pan oedd e a'i gydwybodusion yn gofidio bod crefydd ar drai yn y gymdeithas: y 'melancholy long withdrawing roar' yn ei gerdd 'Dover Beach'. Dechreuodd Arnold a'i debyg edrych tuag at ddiwylliant fel sail amgen i bobl gael byw bywyd moesol, ystyrion. Ers oes Matthew Arnold, mae diwylliant yn ystyr 'y celfyddydau' wedi cael ei gydnabod fwyfwy – nid y lleiaf gan y wladwriaeth. Ers yr Ail Ryfel Byd mae gwahanol lywodraethau'n barod i wario arian cyhoeddus i gefnogi rhai o'r celfyddydau. Ar y cyfan, y 'celfyddydau cain' neu 'uchel ael' yw'r rhain – cerddoriaeth glasurol, celf, dawnys ac yn y blaen, ond wrth gwrs ers y chwedegau, ac yn arbennig ers dyfodiad ôl-foderniaeth, mae sbectwm y celfyddydau – y canon – wedi ymestyn yn sylweddol, i gwmpasu'r Manic Street Preachers yn ogystal ag Alun Hoddinott, Borat yn ogystal â Borodin.

Er bod y ddau gysyniad o ddiwylliant – y Ffrengig a'r Almaenig – mor wahanol, yn aml iawn maen nhw'n ymddangos ochr yn ochr â'i gilydd. Yn y strategaeth ddiwylliant a gyhoeddwyd yn ystod y Cynulliad Cenedlaethol cyntaf, *Cymru greadigol* (2002), gwelwn y diffiniad canlynol:

Mae ein diwylliant yn ymgorfforiad o'n holl weithredoedd a'n dyheadau, ein gwerthoedd a'r hyn yr ydym yn credu ynddo, yr hyn sy'n ein diddori ac yn tanio ein teimladau.

Dyna'r defnydd Almaenig, anthropolegol. Mae'n hawdd deall pam y'i dewiswyd gan yr awdur: yma mae diwylliant yn derm cynhwysol, yn wir yn gynhwysfawr, sy ddim yn debygol o gynhyrfu neb. Yr hyn sy'n ddiddorol yw bod gweddill y strategaeth yn gyfyngedig i ddiwylliant yn ei ail ystyr: y celfyddydau a sut mae'r llywodraeth am eu cefnogi. Ymysg teitlau'r penodau mae: 'cerddoriaeth', 'theatr', 'ysgrifennu', 'dawns', 'celfyddydau gweledol'.

Mae nifer o feddylwyr wedi ceisio cymodi'r ddau gysyniad. I T. S. Eliot yr elit yn unig oedd â mynediad i uchel ddiwylliant, er iddo gyfaddef bod gwerth mewn diwylliannau yn yr ystyr ehangach. Barn Raymond Williams oedd bod modd i bawb yn y gymdeithas gyfrannu'n gyfartal i greu diwylliant; doedd hi byth yn bosibl i ddiffinio diwylliant a'i hoelio i lawr yn derfynol. Ond efallai mai Terry Eagleton sy'n cynnig y cyfaddawd gorau yn ei frawddeg seml, 'Culture is not only what we live by; it is also, in great measure, what we live for'. Mae'r datganiad hwn yn cyfleu'r syniad bod diwylliant yn ffaith ond hefyd yn llawn gwerth i bawb ohonon ni: rhywbeth sy'n ein helpu i ddarganfod ystyr yn ein bywydau.

Fel y gwelon ni mae'r ddau ddiwylliant yn gweithredu gyda'i gilydd ar lefel genedlaethol, fel yng Nghymru. Gallen ni ddweud eu bod nhw'n agosach at ei gilydd yng Nghymru nag mewn gwledydd eraill: achos, o bosibl, fod llai o draddodiad o 'uchel gelfyddyd' nag sydd mewn gwledydd eraill, ond yn bennaf o achos bod diwylliant Cymru yn ddiwylliant lleiafrifol: mae'r gwahaniaeth rhyngddo a diwylliant Lloegr, er enghraifft, llawer yn fwy llydan na'r gwahaniaeth mewnol – rhwng rygbi, er enghraifft, a Rigoletto. Effaith arall o'r ffaith bod diwylliannau nodweddiadol Gymreig yn lleiafrifol ac yn aml dan fygythiad yw eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi a'u gwerthuso'n uwch gan y rhai sy'n rhan ohonynt.

4 Y traddodiad diwylliannol yn y Llyfrgell Genedlaethol

Yng ngoleuni'r dadansoddiad hwn, sut y mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn gweithredu fel sefydliad diwylliannol ers 1907?

Gwelon ni'n gynt sut ddaeth y Llyfrgell, hyd yn oed cyn ei sefydlu, i'w huniaethu ei hun â'r diwylliant Cymraeg ei iaith. I'r cyhoedd fodd bynnag yr adeilad mawr ar Benglais a ddiffiniodd natur ddiwylliannol y sefydliad ifanc. Cynhaliwyd cystadleuaeth i benderfynu ar ei gynllun. Arwyddocaol iawn oedd y dewis: cynllun clasurol, crand – mewn arddull a oedd yn gysylltiedig â'r traddodiad Groegaid-Rufeinig, nerth y wladwriaeth, ac erbyn yr adeg honno, yr ymerodraeth Brydeinig. Datganiad cryf oedd hwn fod y Llyfrgell newydd yn perthyn i ddiwylliant rhyngwladol, elitaidd. Y canlyniad oedd adeilad sy'n adlewyrchu pwysigrwydd honedig y sefydliad, ond sy ddim erbyn heddiw yn cyd-fynd ag ysbryd ein hoes ddemocrataidd ni i'r un graddau.

(Mae'n eironig taw dyma'r negeseuon y mae'r adeilad yn eu cyfleu o ystyried bod y rhan fwyaf o'r arian a gasglwyd tuag ato wedi dod o bocedi pobl gyffredin Cymru, gan gynnwys miloedd o chwarelwyr yng Ngogledd Cymru a miloedd o lowyr yn ne Cymru.)

Beth am ein casgliadau? Beth maen nhw'n ei ddatgelu inni am natur ddiwylliannol y Llyfrgell?

I raddau mae *llyfrgell* genedlaethol yn gallu osgoi'r ddadl barhaus sy'n wynebu *amgueddfa* genedlaethol. Mae amgueddfa yn gorfod bod yn ddedol iawn wrth adeiladu ei chasgliadau, ac yn fwy dedol fyth wrth ddewis gwrthrychau ar gyfer arddangosfeydd. Doed a ddelo does dim dewis gan y curaduron ond i ddangos yn gyhoeddus eu tuedd ddiwylliannol, eu rhagdybiaethau, eu barn am y wlad ac am y byd. Mae'n siŵr fod y cwestiwn hwn wedi poenydio'r staff yn Amgueddfa Cymru fu'n gyfrifol am gyflwyno hanes Cymru yn yr orielau newydd yn Sain Ffagan.

O'r cychwyn cyntaf does dim amheuaeth nad oedd arweinwyr y Llyfrgell yn benderfynol o ddedol, fel curaduron yr Amgueddfa, a chasglu'r gorau o gynnyrch diwylliant Cymru. Mae hyn yn amlwg o'r ffaith i lawysgrifau Hengwrt-Peniarth gael eu gweld fel rhan hanfodol, ganolog o'r Llyfrgell, hyd yn oed cyn 1907. Amcan cyson dros y blynyddoedd yw ceisio casglu'r gwaith gorau gan lenorion, cerddorion ac artistiaid gorau'r wlad. Un o'r egwyddorion pwysig yn y polisiau casglu drwy'r blynyddoedd yw y dylai'r Llyfrgell

gasglu'r hyn sydd yn genedlaethol ei arwyddocâd, yn hytrach na deunydd sy'n lleol neu'n blwyfol neu'n ymylol. Hynny yw, diwylliant yn yr ystyr Ffrengig.

Ar yr un pryd, eto dros y blynyddoedd, mae traddodiad arall ar waith: ceisio adlewyrchu yn y casgliadau sawl agwedd ar fywyd a diwylliannau Cymru. Dyw hi ddim yn anodd cyflawni'r uchelgais hwn os ydych chi'n anelu at fod yn gynhwysfawr yn eich casglu, mewn bydysawd sy'n gyfyng ei gwmpas. Mae hyn yn wir am gyhoeddiadau printiedig. Ers y dyddiau cynnar nod y Llyfrgell yw cael hyd i gopi o bob gwaith printiedig a gyhoeddir yng Nghymru, ac ar ôl 1911, bob gwaith a gyhoeddwyd ym Mhrydain ac Iwerddon. Felly, i'r graddau bod cyhoeddiadau yn adlewyrchu bywyd a diwylliannau'r wlad yn eu holl amrywiaeth, gallai'r Llyfrgell gwmpasu pob agwedd bron ar fywyd Cymru: y trefi a'r wlad, amaeth a diwydiant, traddodiadau yn y ddwy iaith, a diwylliannau arbennig fel chwaraeon a mudiadau cymunedol.

Mewn meysydd eraill, fodd bynnag, does dim dewis ond i ddewis: dethol pethau i'w casglu a storio, allan o fyd sy'n rhy fawr i'w ddal yn ei gyfanrwydd. Enghraifft dda yw archifau. Tra bod y *llyfrgellydd* yn gallu fforddio, weithiau, i fod yn gynhwysfawr, rhan annatod o waith yr *archifydd* yw taflu'r rhan fwyaf o'r dogfennau sy'n dod i'w law i ffwrdd, gan gadw dim ond y rhai sy'n debyg o fod yn hanesyddol bwysig neu'n gynrychioliadol.

O edrych trwy'r casgliadau archifol yn y Llyfrgell gallwch chi weld lle mae ein rhagflaenwyr wedi gwneud dewisiadau - neu efallai wedi mynegi rhagdybiaethau'n anymwybodol - am ba ddiwylliannau sy'n bwysig i'w cadw, a pha rai sydd ddim. Does dim syndod bod archifau crefyddol Cristnogol yn flaenllaw ymhlith yr archifau: nid yn unig archifau'r Eglwys Anglicanaidd ond hefyd archifau'r sefydliad anghydfurfiol. Ar y llaw arall ychydig yw'r archifau o grefyddau eraill, llai, fel Islam. Grŵp mawr arall yn y casgliad yw'r archifau a'r mapiau o'r ystadau mawr a'r teuluoedd mawr yn y cyfnod rhwng y ddeunawfed ganrif a chanol y ganrif ddiwethaf. Aeth y Llyfrgell i drafferth fawr i gasglu'r rhain. Ond anwybyddodd hi archifau'r dosbarth gweithiol. Hywel Francis a'i gydweithwyr, yn hytrach na'r Llyfrgell Genedlaethol, oedd yn gyfrifol yn y saithdegau am achub llyfrgelloedd ac archifau'r undebau a'r gweithwyr ym maes glo De Cymru, a'u cadw yn ddiogel, a hynny ym Mhrifysgol Cymru Abertawe, nid yn Aberystwyth. Ac un enghraifft olaf: mae'n rhyfedd, mewn ffordd, fod rhaid sefydlu cymdeithas annibynnol, Archif Menywod Cymru, i ddiogelu archifau sy'n ymwneud â merched yng Nghymru: mae hyn yn dweud cyfrolau am gulni ein polisi casglu yn y Llyfrgell yn y gorffennol.

Mae'ch dewisiadau casglu yn cael effaith fawr ar natur eich cynulleidfa. Er enghraifft mae'r cofrestrï plwyf ac ewyllysiau'n denu haneswyr teulu i'r Llyfrgell. Ond mae ymchwilwyr hanes gwyddoniaeth yn cadw draw, achos bod y Llyfrgell wedi osgoi casglu papurau gwyddonwyr - er bod Cymru wedi cynhyrchu rhai blaenllaw, byd-enwog yn ystod y ganrif ddiwethaf.

Mae natur y casgliadau yn dylanwadu'n fawr hefyd ar sut mae'r cyhoedd yn gweld y Llyfrgell - trwy ein harddangosfeydd, ein rhaglen addysg, a'r delweddau ar ein gwefan.

I grynhoi, felly, mae gan y Llyfrgell hanes da o gasglu diwylliant Cymreig yn yr ystyr Ffrengig: y gorau o greadigrwydd pobl Cymru - gyda rhai eithriadau, fel gwaith llenorion byd-enwog fel Dylan Thomas, ac archifau gwleidyddion o bwysigrwydd Prydeinig. Mae ei hanes o adlewyrchu diwylliannau yn ystyr 'ffyrdd gwahanol o fyw', fodd bynnag, yn fwy cymysg.

5 Diwylliant Cymru heddiw a LIGC

Sut ddylai'r Llyfrgell weithredu yn y dyfodol i ymateb i ddiwylliannau ei gwlad?

Yn bersonol rwy'n argyhoeddedig y dylen ni barhau i gasglu'r gorau o'n diwylliant yma yng Nghymru. Mae cwmpas y 'canon' wedi ehangu'n sylweddol, heb os, ond mae'n wir o hyd bod cydsyniad cyffredinol am yr esiamplau gorau o greadigrwydd y genedl, boed y rheini'n gerddorion roc neu'n gartwnwyr, yn ddylunwyr neu'n dechnolegwyr. Mae gan y Llyfrgell hon y fantais fawr ei bod hi'n casglu mewn cymaint o gyfryngau gwahanol: felly cewch chi Tom Jones y canwr ymysg y recordiadau yn yr Archif Sgrin a Sain, yn ogystal â gwaith caligraffig Jonah Jones yn y casgliad celf a llawysgrifau Bobi Jones yn yr archifau.

Hollol briodol yw taw'r Llyfrgell Genedlaethol sy'n gofalu am y gweithiau hyn o arwyddocâd cenedlaethol: mae ganddi'r adnoddau, yr adeilad a'r staff i gyflawni'r rhychwant eang o ddyletswyddau sy'n ofynnol – dethol a chaffael, sicrhau mynediad ac amlygrwydd, a chadw a thrwsio.

Ond beth am ddiwylliant yn yr ystyr Almaenig – y gwahanol ffyrdd o fyw a dulliau mynegiant a geir yng Nghymru heddiw? Tasg llawer anos yw casglu'r rhain ond byddwn i'n awgrymu y dylai'r Llyfrgell wneud ei gorau i sicrhau ei bod yn dwyn sylw teilwng i gymaint ohonynt ag sy'n bosibl. Byddai hyn yn golygu, ymhlith pethau eraill:

- ❑ cydnabod y polisiau swyddogol a'r tueddiadau anymwybodol yn y gorffennol sydd wedi arwain at y casgliadau hanesyddol
- ❑ bod yn ymwybodol o'r amrywiaeth o ddiwylliannau sydd i'w gweld o'n cwmpas yng Nghymru
- ❑ sicrhau bod y diwylliannau hynny yn cael eu cynrychioli yng nghasgliadau a gweithgareddau'r Llyfrgell - os oes rhaid, trwy wneud ymdrech arbennig i chwilio amdanynt, yn hytrach nag aros i'r deunydd gyrraedd

Allech chi wrthddadlau: wel, mae hwn yn amcan hollol amhosibl i'w gyflawni: sut gall unrhyw lyfrgell obeithio samplo pob diwylliant posibl yng Nghymru? Hefyd, ydy'r diwylliannau hyn i gyd yn wirioneddol gyfartal o ran eu statws a'u pwysigrwydd?

Atebwn i mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, allwn ni ddim fforddio anwybyddu'r grymoedd cryfion hynny sy'n yn cael dylanwad mawr ar y Gymru gyfoes. Enghraifft amlwg yw'r mewnlifiad mawr gan weithwyr o Wlad Pwyl a gweddill Dwyrain Ewrop. Oni ddylai'r Llyfrgell geisio casglu eu hanes? Yn ail, byddwn i'n gwahaniaethu rhwng y diwylliannau hynny sy'n cael eu rhannu rhwng pobl yng Nghymru a phobl ledled y byd

globaleiddiedig sydd ohoni - a'r rhai sy'n nodweddiadol o Gymru neu'n unigryw i Gymru - a gwneud yn siŵr bod yr ail grŵp yn derbyn blaenoriaeth.

Efallai mai'r enghreifftiau amlycaf yw'r diwylliannau sy'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg: eisteddfodau, barddoniaeth, papurau bro ac ati. Does dim dwywaith bod y Llyfrgell wedi gwneud ymdrech arbennig trwy gydol ei hanes i wneud cyfiawnder â'r rhain, ymhob agwedd ar ei gwaith.

Ond mae llawer o ddiwylliannau eraill sy'n nodweddiadol o Gymru. Mae'n bosibl dadlau bod y rhain yn amlhau achos bod Cymru'n graddol ymwahanu oddi wrth rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, wrth i ddatganoli ddwysáu. Gwelwn fod ein ffordd o addysgu plant yn datblygu'n wahanol, er enghraifft. (Mae hyn yn peri gofid yng nghoridorau Llundain, wrth gwrs, wrth i rai gwleidyddion yno geisio amddiffyn neu ddyfeisio diwylliant arall, sef 'Prydeindod'.)

Os dyma'r agenda inni yn y dyfodol - i adlewyrchu'r amrywiaeth gynyddol ym mywyd pobl Cymru - byddwn ni'n ei dilyn mewn byd o wybodaeth sy'n wahanol i'r gorffennol ac sy'n newid yn gyflym. Sôn ydw i am y chwyldro electronig sy'n effeithio ar y ffordd y mae pobl yn cyhoeddi a chyfathrebu. Un o nodweddion amlycaf y chwyldro hwn - un sydd o fantais i'r Llyfrgell - yw bod cynhyrchu a chyhoeddi gwybodaeth lawer yn haws i lawer iawn mwy o bobl - i'r fath raddau fel bod y ffiniau rhwng cyfathrebu preifat a chyfathrebu cyhoeddus bron wedi torri i lawr. Mae cyhoeddi'n cael ei ddemocrateiddio: gall unrhyw un, o unrhyw gefndir neu oedran, gyfrannu i'r cyfanswm o wybodaeth gyhoeddus, a'i rhannu â'r byd cyfan (neu o leiaf y rhan honno o'r byd sy'n medru cysylltu â'r rhyngrwyd). Yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf gwelwn ni gyfres o gyfryngau newydd yn dod i'r wyneb, a chael eu mabwysiadu'n gyflym iawn, yn arbennig gan y to ifanc: gwefannau, blogiau, podcasts, orielau lluniau fel Flickr, orielau fideo fel YouTube, a safleoedd rhwydweithio cymdeithasol fel MySpace a Facebook. Cymerwch y ffenomenon 'blog'. Faint o ddyddiaduron ar bapur sydd yng nghasgliadau'r Llyfrgell? Wn i ddim, ond siŵr o fod dim mwy na rhai cannoedd, a'r rheini'n dyddio o wahanol ganrifoedd. Ond os edrychwch chi ar y rhyngrwyd heddiw cewch chi hyd i gannoedd mwy o ddyddiaduron Cymreig ar-lein ar ffurf 'blogiau' - gan bobl o bob cefndir, ar bob math o bwnc. Felly gallwch chi ddadlau bod diwylliannau Cymru - diwylliannau yn yr ystyr Almaenig, achos bod dim rheolaeth safon ar y safleoedd hyn - lawer yn fwy amlwg ac yn agored i'w casglu nag erioed o'r blaen. A dyma'r her i'r Llyfrgell: sut gallwn ni lwyddo i ddal yr wybodaeth hon i gyd, neu o leiaf samplau ohoni, a'i diogelu at y dyfodol?

I grynhoi, yr hyn dwi'n ei awgrymu yw bod y Llyfrgell yn gweithredu mewn dwy ffordd: fel *trysordy* o'r gorau y mae Cymru'n ei gynhyrchu ym mhob maes creadigol, ac ar yr un pryd fel *drych* o'r diwylliannau gwahanol sy'n gwneud ein gwlad yn arbennig.

Cyn cloi hoffwn i droi i gyfeiriad braidd yn wahanol.

Hyd yma dwi wedi trin y Llyfrgell fel llestr wag fel petai, sy'n derbyn gwybodaeth mewn ffordd oddefol yn unig. Ond mewn realiti mae ganddi rôl lawer mwy positif, sy'n cyfrannu at ddiwylliant yng Nghymru.

Dwi wedi sôn am enghraifft eisoes: y ffordd y mae'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg, a thrwy hynny'n gosod esiampl ragorol i sefydliadau eraill. Daw hyn allan o ddiwylliant mewnol y Llyfrgell, sy'n gryf ac yn hirsefydlog.

Enghraifft arall yw'r gefnogaeth y mae'r Llyfrgell yn ei chynnig i artistiaid Cymru, yn arbennig trwy drefnu arddangosfeydd o'u gwaith a phrynu esiamplau i'r casgliadau, ac i lenorion trwy gynnig llwyfan (yn aml yn llythrennol) i'w gwaith. Dros y blynyddoedd bu'n bosib inni fagu a chynnal perthynas agos a hirdymor gydag artistiaid Cymreig, er enghraifft gyda Syr Kyffin Williams.

Ac wrth gwrs dyw'r casgliadau ddim yn gorwedd yn dawel ar y silffoedd ac yn y cypyrddau. O bryd i'w gilydd maen nhw'n cael eu darganfod neu eu hailddarganfod, ac yn ysbrydoli llenorion ac artistiaid cyfoes. Yn wir, dyna'n union sut mae diwylliant yn tyfu ac yn datblygu - trwy ail-ddehongli gwaith y gorffennol. Pan siaradodd Mererid Hopwood am y Llyfrgell yn Eisteddfod yr Urdd eleni, cyfeiriodd ati hi nid fel *trysorfa*'r genedl, ond fel *cof* y genedl: hen ymadrodd ond un sy'n awgrymu bod diwylliant y gorffennol yn fyw o hyd, ac ar gael i'w ddefnyddio eto gan genedlaethau newydd.

Does dim rheswm pam dylai'r broses hon ddigwydd o fewn cylch cyfyng o wybodusion neu artistiaid. Fy nghred gadarn i yw y dylai hi fod yn bosibl i unrhyw un, yn oedolion neu'n blant, yn Gymry neu'n bobl o wledydd eraill, gael hyd i'r cyfoeth diwylliannol dihybydd sydd i'w weld o fewn muriau'r Llyfrgell ac o fewn cof ein gweinyddion cyfrifiadurol, a'i aildefnyddio er mwyn creu eu diwylliant drostyn nhw eu hunain.